



At:

Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch yng Nghymru
Canolfannau dysgu LCA/GDLIC (AB) cofrestredig
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr
UCAS
NUS Cymru
Comisiynydd Plant Cymru

24 Gorffennaf 2019

Annwyl Gyfaiil

CYNLLUNIAU LWFANS CYNHALIAETH ADDYSG (LCA) A GRANT DYSGU LLYWODRAETH CYMRU (ADDYSG BELLACH) (GDLIC (AB)) AR GYFER BLWYDDYN ACADEMAIDD 2019/20.

Mae'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn rhoi manylion y cynlluniau LCA a GDLIC (AB) ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2019/20. Gwnewch yn siŵr bod Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cael ei ddsbarthu i'r holl staff a chydweithwyr sy'n gweinyddu'r cynlluniau.

YMHOLIADAU

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr LCA a/neu GDLIC (AB) neu'r hysbysiad hwn, cysylltwch â'r Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru – e-bost studentfinancedivision@gov.wales. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais. Gellir lawrlwytho copi o'r hysbysiad gwybodaeth hwn yn [Gymraeg](#) neu [Saesneg](#).



1. Cynlluniau LCA a GDLIC (AB) 2019/20

Mae'r dyfarniadau a'r trothwyon incwm ar gyfer y cynlluniau LCA a GDLIC (AB) â phrawf modd wedi'u cadw ar yr un lefelau â Blwyddyn Academaidd 2018/19.

Mae ffurflenni cais a nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2019/20 ar gael i'w lawrlwytho drwy wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru. Mae pecynnau ymgeisio hefyd wedi cael eu dosbarthu i'r ysgolion a'r colegau sy'n gweinyddu'r cynlluniau. Gellir cysylltu â gwasanaeth dwyieithog Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFW) ar 0300 200 4050. Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru: <http://www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk/ab>.

2. Categori newydd o ganiatâd cyfyngedig i ddod i mewn neu i aros – Adran 67

Mae categori preswyllo newydd wedi'i gynnwys yng nghynlluniau'r LCA a'r GDLIC (AB) yng Nghymru o flwyddyn academaidd 2019/20, fel y gall unigolion sydd wedi cael caniatâd i aros o dan Adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016 wneud cais am y cymorth.

Ym mis Mehefin 2018, cyflwynodd y Swyddfa Gartref gategori newydd o ganiatâd cyfyngedig i ddod i'r DU neu aros yn y DU – caniatâd Adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016 ('caniatâd Adran 67') – ar gyfer plant ar eu pennau eu hunain sydd wedi trosglwyddo i'r DU nad ydynt yn gymwys i gael caniatâd i aros o dan y Rheolau Mewnfudo presennol fel ffoaduriaid neu fathau eraill o ganiatâd seiliedig ar ddiogelu. Cyfeirir at hyn fel 'diwygiad Dubs', a'i nod yw cynorthwyo plant ar eu pennau eu hunain ('plant Dubs'). Bydd unigolion sy'n gymwys ar gyfer caniatâd Adran 67 yn cael yr hawl i astudio, gweithio, derbyn arian cyhoeddus (hawlio budd-daliadau a chymorth tai) a gofal iechyd, a gwneud cais am ganiatâd amhenodol i aros ar ôl pum mlynedd. Mae caniatâd Adran 67 yn cael ei ddisgrifio yn y Rheolau Mewnfudo (rheolau 352ZG – 352ZS).

Er mwyn bod yn gymwys i drosglwyddo i'r DU, mae'n rhaid bod plant Dubs wedi bod yn bresennol yn Ewrop cyn 18 Ionawr 2018. Hefyd, yn dilyn asesiad unigol, mae'n rhaid penderfynu mai symud i'r DU sydd orau i'r plentyn, yn hytrach nag aros yn y wlad sy'n ei gynnal ar hyn o bryd, cael ei drosglwyddo i aelod-wladwriaeth arall, neu gael ei aduno â'i deulu y tu allan i Ewrop.

Bydd plant dibynnol plant Dubs yn cael caniatâd i ddod i'r DU neu aros yn y DU dros yr un cyfnod â'u rhiant cyn belled â bod gofynion penodol yn cael eu bodloni. Ystyr plentyn yw unigolyn dan 18 oed y mae gan y person gyfrifoldeb rhiant amdano.

At ddibenion y categori cymhwysedd hwn, mae plentyn dibynnol yn golygu plentyn sydd o dan 18 mlwydd oed ac y mae gan y person sydd â chaniatâd Adran 67 gyfrifoldeb rhiant drosto.

Yn ogystal â chael caniatâd Adran 67, rhaid i'r person fod:

- yn preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- yn preswyllo'n gyfreithlon fel arfer yn y DU a'r Ynysoedd bob amser ers cael caniatâd i aros o dan Adran 67

Disgwylir y bydd newid tebyg ar gyfer Adran 67 yn cael ei wneud i'r Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Addysg Bellach) ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2019/20. Mae'r gyfres o reoliadau cymorth statudol i fyfyrwyr israddedig ac ôlraddedig ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2019/20 wedi'u diwygio i gynnwys categori Adran 67.

Mae'r rhesymeg dros wneud y newid yn parhau â'r polisi hirsefydlog o drin ffoaduriaid ac eraill sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu aros fel rhai sy'n gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr, gan alluogi myfyrwyr o amrywiaeth o gefndiroedd i ddilyn addysg bellach a hyrwyddo cydraddoldeb mynediad. Mae ffurflenni cais LCA ac GDLIC (AB) a nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2019/20 wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r categori newydd hwn.

3. Cyrsiau cymwys – Rhaglenni Sgiliau Byw'n Annibynnol

At ddibenion y cynlluniau LCA a GDLIC (AB), rhaid i fyfyrwyr cymwys ymgymryd â chwrs addysg bellach hyd at lefel 3 (sy'n gyfwerth â Safon Uwch neu NVQ lefel 3), gan arwain at gymhwyster a roddir gan gorff dyfarnu cydnabyddedig.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau AB a Colegau Cymru i ddatblygu cwricwlwm diwygiedig ar gyfer maes dysgu Sgiliau Byw'n Annibynnol. Mae'r cwricwlwm diwygiedig yn cael ei ddatblygu mewn ymateb i argymhellion a nodwyd mewn Adroddiad Thematig diweddar gan Estyn ac mae pob rhaglen newydd wedi'i chynllunio i ddarparu dull ymarferol ar gyfer ennill ac atgyfnerthu sgiliau, er mwyn paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd fel oedolion.

O dan y cwricwlwm newydd, bydd dysgwyr SBA yn dilyn rhaglenni unigol wedi'u teilwra sy'n datblygu eu sgiliau ar draws 4 'colofn' o ddysgu.

- Iechyd a Lles;
- Cyflogadwyedd;
- Byw'n Annibynnol; a
- Cynhwysiant Cymunedol

Er bydd rhai dysgwyr yn gallu ymgymryd â chymwysterau (neu unedau o gymwysterau), mae cymwysterau ffurfiol yn annhebygol o fod yn briodol ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr SBA.

I gefnogi'r datblygiad newydd hwn, mae dysgwyr ag anawsterau dysgu sy'n dechrau rhaglen ddysgu sydd heb ei hachredu o gwbl ac sy'n arwain at gyflawni rhaglen dysgu wedi'i phersonoli a ariennir gan Lywodraeth Cymru o dan faes rhaglen Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith, yn gymwys i wneud cais am grant LCA neu gymorth GDLIC (AB) ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2019/20, yn amodol ar fodloni'r holl feini prawf cymhwysedd eraill.

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN 05/2019)

Disgwylir y bydd yna brosesau cadarn ar gyfer asesu cychwynnol, gosod targedau a monitro cyflawniad yn erbyn targedau yn sail i bob rhaglen. Bydd hyn yn sicrhau bod nodau a phwrpas dyfarnu cymorth LCA a GDLIC (AB) yn cael eu cynnal.

Bydd canllawiau Canolfan Ddysgu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn cael eu diweddarau'n fuan i roi gwybodaeth am y newid hwn.